# Cynnal a Chadw Cerbydau i Fenywod



## Yn gryno

Os ydych chi'n awyddus i gynnal a chadw eich car eich hun neu gerbydau eraill, mae'r cwrs hwn yn fan cychwyn gwych. Byddwch chi'n dysgu'r egwyddorion sylfaenol am gerbydau modur mewn amgylchedd gweithdy hamddenol a chyfeillgar.

## Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... unrhyw un sy'n awyddus i weithio ar geir a/neu gerbydau eraill.

... unrhyw un sy'n dymuno dysgu sut i gynnal a chadw ei gar ei hun.

... unrhyw un sy'n dymuno adnewyddu ceir fel hobi neu ddatblygu sgiliau ar gyfer gyrfa newydd.

## Cynnwys y cwrs

Bydd angen i chi fod yn frwdfrydig a meddu ar ddiddordeb mewn cerbydau modur. Cewch

gyfle i ddysgu am yr holl systemau sy'n rhan o gerbydau modur clasurol a modern gan gynnwys:

• Systemau brecio

• Systemau crogiant

• Systemau tanwydd

• Teiars

• Systemau trawsyriant

• Systemau aerdymheru

• Systemau trydanol gan gynnwys ABS a SRS

• Gwasanaethu

• Systemau taniad

• Glanhau a gofal cerbyd

• Egsosts

• Systemau rheolaeth injan

• Addasiadau cerbyd

Cewch eich asesu trwy asesiadau ymarferol parhaus a chyflwynir tystysgrif coleg i chi ar gwblhau'r cwrs. Ar ôl hynny, gallwch chi symud i gwrs amser llawn neu gwrs rhan-amser ar Lefel Mynediad neu Lefel 1.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Yn ystod y cwrs hwn, bydd angen Cyfarpar Diogelu Personol addas megis esgidiau a throswisg arnoch chi.